



Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru Adroddiad Blynyddol 2017 – 2018

Mawrth 2019

Cynnwys

Rhagair		3
Adran 1	Amdanom ni	4
Adran 2	Perfformiad a Chynnydd	8
Adran 3	Gwariant	11

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylw i'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018. Gobeithio y byddwch yn gweld yr adroddiad yn ddefnyddiol ac yn hwylus.

Ein nod yw sicrhau bod y Tribiwnlys yn gweithio er budd pawb yng Nghymru sy'n cyflwyno ceisiadau neu atgyfeiriadau sy'n dod o dan ein hawdurdodaeth, drwy ddelio â cheisiadau neu atgyfeiriadau o'r fath yn effeithlon ac yn effeithiol ac yn unol â'r canllawiau statudol a'r canllawiau ar arferion gorau.

Mae croeso i chi ofyn unrhyw gwestiynau neu wneud sylwadau ar unrhyw agwedd ar waith y Tribiwnlys, neu ar gynnwys yr Adroddiad, a dylid eu cyfeirio yn y lle cyntaf at Ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys.

Mrs Carolyn Kirby OBE

Llywydd

Adran 1 – Amdanom ni

Yn yr adran hon:

- Sail y Tribiwnlys
- Swyddogaeth y Tribiwnlys
- Rheolau'r Tribiwnlys
- Aelodau'r Tribiwnlys
- Penodiadau
- Hyfforddiant
- Arfarnu
- Cysylltu â'r Tribiwnlys
- Defnyddio'r Tribiwnlys

Sail y Tribiwnlys

Mae Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn gorff barnwrol annibynnol a sefydlwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1959, ac sy'n gweithredu yn unol â darpariaethau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd). Y Tribiwnlys sy'n gyfrifol am benderfynu ar geisiadau ac atgyfeiriadau yn ymwneud â chleifion sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, cleifion sydd wedi cael gorchymyn triniaeth gymunedol neu orchymyn gwarcheidiaeth, a chleifion sy'n cael eu rhyddhau'n amodol o'r ysbyty.

Mae'r Tribiwnlys yn gorff barnwrol sy'n annibynnol ar y llywodraeth, ac mae ei aelodau'n cael eu penodi gan yr Arglwydd Ganghellor.

Swyddogaeth y Tribiwnlys

Mae'r Tribiwnlys yn cynnig gwarchodaeth sylweddol i gleifion y cyfyngwyd ar eu rhyddid o dan y Deddfau Iechyd Meddwl. Mater i'r rheini sy'n credu y dylai claf barhau i gael ei gadw yn yr ysbyty neu barhau i gael triniaeth gymunedol o dan oruchwyliaeth yw profi eu hachos – nid mater i'r claf wrthbrofi hynny. Felly, mae angen iddynt gyflwyno tystiolaeth ddigonol i'r Tribiwnlys i gefnogi eu hachos. Adroddiadau cymdeithasol a chlinigol yw asgwrn cefn y dystiolaeth hon a chaiff y rhain eu trafod ar lafar mewn gwrandawiadau gyda'r claf yn bresennol. Mae'r gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn wedi'u pennu'n glir yn Rheolau'r Tribiwnlys 2008.

Rheolau'r Tribiwnlys

Mae'r Tribiwnlys yn gweithredu yn unol â'r gweithdrefnau a nodwyd yn Rheolau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl 2008, sydd ar gael yn:

www.mentalhealthlaw.co.uk/Mental_Health_Review_Tribunal_for_Wales_Rules_2008

Pwrpas Rheolau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl 2008 yw sicrhau bod y Tribiwnlys yn delio â phob achos a glywir ganddo yn deg, yn gyfiawn, yn effeithlon ac yn gyflym. Mae'r Rheolau yn mynnu bod y Tribiwnlys yn sicrhau, i'r graddau y bo modd, bod pawb yn gallu cymryd rhan lawn yn yr achos.

Mae ceisiadau ac atgyfeiriadau i'r Tribiwnlys yn perthyn yn fras i dri chategori:

Cleifion dan gyfyngiadau – troseddwy'r ag anhwylder meddwl sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty er mwyn cael triniaeth, ac mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gosod rheolaethau arbennig ar eu cyfer oherwydd lefel eu risg. Mae'n bosibl y byddant yn cael eu rhyddhau'n amodol maes o law, fel rhan o'r broses raddol o ailymuno â'r gymuned. Mae gan y Tribiwnlys awdurdodaeth i wneud penderfyniadau ynghylch rhyddhad diamod ac amodol cleifion sydd dan gyfyngiadau, yn ogystal ag amrywio'r amodau a osodir arnynt.

Cleifion nad ydynt dan gyfyngiadau – cleifion nad ydynt yn droseddwy'r ac sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty, o dan Adran 2 neu Adran 3 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Maent yn dioddef o anhwylder meddwl o natur neu raddfa sy'n golygu bod angen iddynt gael eu cadw yn yr ysbyty. Caiff Adran 2 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl ei defnyddio pan fydd angen asesiad, neu asesiad wedi'i ddilyn gan driniaeth feddygol, am gyfnod penodol o leiaf, a chaiff Adran 3 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl ei defnyddio pan fydd angen triniaeth. Gwaith y Tribiwnlys yw penderfynu a yw'r meini prawf sy'n cyfiawnhau cadw'r claf yn yr ysbyty yn dal i gael eu bodloni ar adeg y gwrandawriad.

Cleifion cymunedol – nid yw'r cleifion yma yn cael eu cadw yn yr ysbyty, ond mae'n bosibl eu bod wedi cael Gorchymyn Triniaeth Gymunedol neu orchymyn gwarcheidiaeth. Gwaith y Tribiwnlys yw penderfynu a yw'r meini prawf sy'n cyfiawnhau'r gorchymynion hyn yn dal i gael eu bodloni ar adeg y gwrandawriad.

Aelodau'r Tribiwnlys

Yr Arglwydd Ganghellor sy'n gyfrifol am benodi ac ailbenodi'r Llywydd a holl aelodau'r Tribiwnlys. Caiff penodiadau eu gwneud ar ôl hysbysebu swyddi gwag, ac ar ôl i'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol gynnal proses gyfweld gystadleuol.



Rôl yr aelod cyfreithiol – Rôl yr aelod cyfreithiol yw llywyddu (h.y. cadeirio) mewn gwrandawladau tribiwnlys. Mae ei gyfrifoldebau hefyd yn cynnwys gwneud yn siŵr bod achosion yn cael eu cynnal yn deg a bod gofynion cyfreithiol y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu dilyn yn briodol, a rhoi cyngor ar unrhyw gwestiynau cyfreithiol sy'n codi. Mae'r aelod cyfreithiol hefyd yn gyfrifol, ar ôl ymgynghori ag aelodau eraill y Tribiwnlys, am ddrafftio'r rhesymau dros y penderfyniad ac am lofnodi'r cofnod o'r penderfyniad. Disgwylir i'r aelodau cyfreithiol fod â phrofiad cyfreithiol y mae'r Arglwydd Ganghellor yn ei ystyried yn 'briodol'.

Rôl yr aelod meddygol – Mae gan aelod meddygol y tribiwnlys rôl ddeuol i'w chyflawni. Mae Rheolau'r Tribiwnlys yn ei gwneud yn ofynnol i'r aelod wneud archwiliad o'r claf cyn y gwrandawriad a chymryd unrhyw gamau mae'n ystyried sy'n briodol er mwyn llunio barn ynghylch cyflwr meddyliol y claf. Yn ystod y gwrandawriad bydd gan yr aelod meddygol, ynghyd â'r aelodau eraill, gyfrifoldeb barnwrol i benderfynu ar ganlyniad y gwrandawriad. Yn ddieithriad, mae aelod meddygol y tribiwnlys yn seiciatrydd ymgynghorol â blynyddoedd lawer o brofiad. Bydd yn gallu cyngori aelodau eraill y Tribiwnlys ar unrhyw faterion meddygol.

Rôl yr aelod lleyg – Nid yw'r aelod lleyg yn gyfreithiwr nac yn seiciatrydd, ond mae'n cynnig gwybodaeth a phrofiad gwahanol sy'n berthnasol i awdurdodaeth y Tribiwnlys. Gall yr aelod lleyg gyfrannu gwybodaeth ynghylch salwch meddwl, gwasanaethau cymdeithasol neu iechyd meddwl, hawliau cleifion a materion cymunedol at y broses o ystyried achos y claf.

Yr Ysgrifenyddiaeth – Yr ysgrifenyddiaeth sy'n bennaf gyfrifol am y gwaith gweinyddol o ddydd i ddydd. Mae'n delio â'r holl waith papur rhagarweiniol ac yn prosesu ceisiadau ac atgyfeiriadau i'r Tribiwnlys. Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn ymgynghori â'r Llywydd neu ei dirprwyon ynghylch yr holl bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod y camau cychwynnol cyn y gwrandawriad, a bydd yn rhoi gwybod i'r partion yn ysgrifenedig am y penderfyniadau a'r cyfarwyddiadau. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn bwynt cyswllt ar gyfer holl aelodau a defnyddwyr y Tribiwnlys. Bydd aelodau o'r ysgrifenyddiaeth yn bresennol mewn rhai gwrandawladau er mwyn helpu i sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn effeithlon.

Penodiadau

Penodwyd 14 o aelodau meddygol newydd i'r Tribiwnlys yn 2017/18. Penodwyd chwech o aelodau newydd i'r Panel Cleifion dan Gyfyngiadau yn 2017/18.

Hyfforddiant

I sicrhau bod y Tribiwnlys yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, mae'n bwysig bod yr holl aelodau wedi'u hyfforddi'n briodol a'u bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf ym maes cyfraith ac ymarfer iechyd meddwl. Mae'r Tribiwnlys wedi ymrwymo'n llwyr i'r broses hon, a chynhaliwyd ei Gynhadledd Flynyddol ar gyfer ei holl aelodau ym mis Tachwedd 2017 yng Ngwesty Park Inn, Caerdydd. Roedd y gynhadledd yn cynnwys trosolwg o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a sut mae'n rhyngweithio â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) a'r Ddeddf Iechyd Meddwl, gan Mr Steven Garland, Cyngorydd Arbenigol ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Roedd y sesiwn yn cynnwys rhannu'r aelodau'n grwpiau er mwyn iddynt allu trafod y cyflwyniad. Roedd sesiwn y prynhawn yn canolbwyntio ar y broses o wneud penderfyniadau mewn Tribiwnlysoedd. Cafwyd cyflwyniad gan Mrs Marian Trendell Dirprwy Gyfarwyddwr Gwaith Cymdeithasol ym Mhartneriaeth GIG Sussex a chyn Aelod Lleyg Arbenigol ar gyfer y Tribiwnlys Haen Gyntaf, ar y broses benderfynu o safbwynt aelod Lleyg. Roedd y sesiwn hefyd yn cynnwys rhannu'r aelodau'n grwpiau er mwyn iddynt allu trafod y cyflwyniad.

Cynhaliwyd cyfres o weithdai hyfforddiant eleni, gan gynnwys un yng Nghonwy a dau yng Nghaerdydd. Canolbwyntiodd yr aelodau ar ddatblygiadau cyfreithiol a sut maent yn effeithio ar y broses o wneud penderfyniadau gan aelodau Tribiwnlysoedd. Cafodd yr holl aelodau oedd yn bresennol ar bob un o'r diwrnodau eu rhannu'n grwpiau bychan arbenigol ac fe wnaethant rannu eu profiad o'r sefyllfaoedd amrywiol sy'n rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Rhoddwyd astudiaethau achos i'r grwpiau a gofynnwyd iddynt ddrafftio penderfyniadau, gan roi rhesymau'n seiliedig ar y canllawiau diwygiedig a oedd wedi'u rhoi iddynt ar ddod i gonsensws ym mhob achos a sut i ddelio gyda gwahanol sefyllfaoedd yn unol â'r canllawiau arferion da.

Arfarnu

Cafodd 25 aelod o'r Tribiwnlys eu harfarnu yn ystod 2017/18, yn unol â'r cynllun i arfarnu pob aelod bob dwy flynedd.

Cysylltu â'r Tribiwnlys

Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru

Llawr Daear, Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Llinell Gymorth y Tribiwnlys: 03000255328

E-bost y Tribiwnlys: mhrt@llyw.cymru

Gwefan: www.tribiwnlysadolyguiechydmeddwl.llyw.cymru

Defnyddio'r Tribiwnlys

Mae'r Tribiwnlys yn hapus i gyfathrebu â defnyddwyr yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os na fydd siaradwr Cymraeg ar gael ar y pryd, byddwn yn trefnu bod un yn cysylltu â'r defnyddiwr cyn gynted â phosib.

Gall cleifion ddewis cael gwrandawriad tribiwnlys yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf, gellir trefnu bod cyfieithydd ar gyfer yr iaith dan sylw yn bresennol yn y gwrandawriad. Os bydd angen i ddehonglydd iaith arwyddion fod yn bresennol yn y gwrandawriad, gallwn drefnu hynny hefyd.

Os oes gan unrhyw un a fydd yn y gwrandawriad unrhyw ofynion mynediad a allai effeithio ar drefniadau'r gwrandawriad, byddwn yn darparu ar gyfer hynny. Er mwyn gallu trefnu i gael cyfieithwyr neu ddehonglwyr, neu er mwyn darparu ar gyfer unrhyw anghenion ychwanegol, rhaid rhoi digon o rybudd i'r ysgrifenyddiaeth ymlaen llaw.

Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr adran hon:

- Niferoedd ac Ystadegau
- Apeliadau
- Targedau Arferion Gorau a Statudol
- Cwynion

Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn tribiwnlys yn rhedeg o fis Ebrill i fis Mawrth.

Dyma'r ystadegau a gaiff eu casglu:

2.1: Nifer y ceisiadau a'r atgyfeiriadau a ddaeth i law

2.2: Nifer y ceisiadau a'r atgyfeiriadau wedi'u terfynu yn y gwrandawriad cyntaf

2.3: Nifer y ceisiadau a'r atgyfeiriadau heb fynd ymlaen i wrandawriad a'r rhesymau

Tabl 2.1 Nifer y ceisiadau a'r atgyfeiriadau a ddaeth i law

Mis	Dan gyfyngiadau	Cymunedol	Ddim dan gyfyngiadau	Cyfanswm (mis)
Ebrill	12	19	142	173
Mai	20	16	132	168
Mehefin	21	18	154	193
Gorffennaf	12	11	129	152
Awst	13	10	160	183
Medi	15	20	134	169
Hydref	20	14	152	186
Tachwedd	17	17	134	168
Rhagfyr	12	13	129	154
Ionawr	13	27	145	185
Chwefror	13	11	131	155
Mawrth	15	15	118	148
Cyfanswm (Blwyddyn)	183	191	1660	2034

Ceisiadau Adran 2	635
Ceisiadau ac atgyfeiriadau cymunedol	191
Ceisiadau ac atgyfeiriadau dan gyfyngiadau	183
Ceisiadau ac atgyfeiriadau nad ydynt dan gyfyngiadau (ac eithrio Adran 2)	1025
Cyfanswm	2034

2.2 Nifer y ceisiadau a'r atgyfeiriadau wedi'u terfynu yn y gwrandawriad cyntaf

Roedd cyfanswm o 828 o achosion wedi symud ymlaen i gael canlyniad yn y gwrandawriad cyntaf. Cafodd 168 o achosion eu gohirio (i'w gwrandawrio rywbryd eto), cyn symud ymlaen i benderfyniad terfynol.

Mae'n bosibl na fydd ceisiadau ac atgyfeiriadau sy'n dod i law yn ystod y flwyddyn yn cael eu cwblhau tan y flwyddyn ganlynol.

2.3 Nifer y ceisiadau a'r atgyfeiriadau heb fynd ymlaen i wrandawriad a'r rhesymau

Rheswm dros beidio â symud ymlaen i wrandawriad	Nifer yr Achosion
Anffurfiol (y claf wedi'i ryddhau gan yr awdurdod a oedd yn ei gadw yn yr ysbyty cyn i'r achos symud ymlaen i wrandawriad)	585
Tynnwyd yn ôl (y claf wedi tynnu'r cais yn ôl cyn i'r achos symud ymlaen i wrandawriad)	260
Wedi marw (y claf wedi marw cyn i'r achos symud ymlaen i wrandawriad)	2
Wedi'u gohirio (y ceisiadau neu'r atgyfeiriadau wedi'u gohirio cyn i'r achos symud ymlaen i wrandawriad)	243
Y cais yn anghymwys (y ceisiadau neu'r atgyfeiriadau wedi'u cyfeirio yn amhriodol i'r Tribiwnlys)	44
Wedi'i drosglwyddo o'r ardal (y claf wedi'i drosglwyddo o Gymru cyn i'r achos symud ymlaen i wrandawriad)	23
Cyfanswm	1150

Apeliadau

Nid oes darpariaeth statudol i'r Tribiwnlys adolygu penderfyniad, dim ond i benderfynu a ddylid caniatáu apelio i'r Uwch Dribiwnlys. Gall partion ofyn am ganiatâd gan y Llywydd i gyflwyno apêl i'r Uwch Dribiwnlys yn erbyn penderfyniad gan y tribiwnlys ar sail gwall cyfreithiol. Os bydd y Llywydd yn gwrthod rhoi caniatâd i apelio, gellir cyflwyno apêl i'r Uwch Dribiwnlys yn uniongyrchol am ganiatâd i apelio.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, cyflwynwyd pum cais i'r Llywydd i gael caniatâd i gyflwyno apêl i'r Uwch Dribiwnlys. Cafodd dau eu cymeradwyo.

Targedau Arferion Gorau a Statudol

Mae gan y Tribiwnlys bedwar terfyn amser statudol mae'n rhaid iddo eu bodloni.

Rhestru achosion Adran 2 o fewn saith diwrnod iddynt ddod i law
(ond dim llai na 3 diwrnod oherwydd y ddyletswydd i roi tri diwrnod o rybudd)

Rhestru atgyfeiriadau dan gyfyngiadau sydd wedi'u galw'n ôl rhwng pump ac wyth wythnos

Anfon penderfyniadau Adran 2 o fewn tri diwrnod gwaith

Anfon pob penderfyniad arall o fewn saith diwrnod calendr

Mae gan y Tribiwnlys dri tharged arferion gorau i'w cyrraedd.

Cydnabod pob achos o fewn dau ddiwrnod gwaith

Rhestru achosion nad ydynt dan gyfyngiadau o fewn wyth wythnos

Rhestru achosion sydd dan gyfyngiadau o fewn 12 wythnos

Cwynion

Cafodd y Tribiwnlys bump o gwynion ffurfiol yn ystod y flwyddyn. Cafodd dau eu cadarnhau'n rhannol; ni chafodd y gweddill eu cadarnhau. Deliodd y Llywydd â phob cwyn yn unol â pholisi cwynion y Tribiwnlys.

Adran 3 – Gwariant

Yn yr adran hon:

- Gwariant yn 2017-18

Gwariant yn 2017-2018

Cynnwys	Swm
Ffioedd a threuliau'r aelodau ar gyfer achosion tribiwnlys	£1,769,175
Hyfforddiant i'r aelodau	£106,625
Cyfanswm	£1,875,800

Mae gwrandawiadau'r Tribiwnlys yn cael eu cynnal naill ai yn yr ysbytai lle mae'r cleifion yn cael eu cadw neu, ar gyfer cleifion cymunedol, mewn lleoliad sy'n agos at eu cartref. Felly mae holl aelodau'r Tribiwnlys yn teithio cryn dipyn i gyflawni eu dyletswyddau.